

Ysgolion yn y Senedd: Gwybodaeth i'ch helpu i gynllunio ymweliad diogel

Mae eich diogelwch wrth ymweld â'r Senedd yn bwysig iawn i ni. Bydd y wybodaeth ganlynol yn eich helpu i baratoi am eich ymweliad, a gyda'r gwaith papur i baratoi eich asesiad risg.

Ymweld gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r holl staff yng Ngwasanaeth Addysg y Senedd wedi cael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Ddiwrnod eich ymweliad, gwnewch yn siŵr bod gennych y gymhareb leiafswm orfodol o oedolyn i blentyn sy'n ofynnol ar gyfer ymweliadau grŵp â'r Senedd:

1:15 ar gyfer Cyfnodau allweddol 2-5 **1:7 ar gyfer Cyfnod allweddol 1**

Rydym yn nodi'r gymhareb hon i gefnogi rheolaeth ddiogel o grwpiau ym Mhalas San Steffan a'r cyffiniau. Byddwch yn ymwybodol ei bod yn bosibl y bydd yn rhaid i ni addasu neu ganslo'r ymweliad os na allwch ddarparu nifer addas o oedolion sy'n hebrwng ar y diwrnod.

Arweinir pob taith gan gynrychiolydd o Wasanaeth Addysg y Senedd ar gymhareb o 1 aelod o staff i bob 16 - 25 o ymwelwyr.

Fe'ch cynghorir mai'r arweinwyr grŵp sy'n oedolion sy'n gyfrifol am oruchwylio'r plant. Mae gan Wasanaeth Addysg y Senedd yr hawl i ofyn i unrhyw grwpiau adael y Senedd os bydd eu hymddygiad yn peryglu diogelwch ymwelwyr eraill a staff Seneddol, neu allu ymwelwyr eraill i fwynhau eu hymweliad. Peidiwch â bwyta, yfed na chnoi gwm ar y daith neu yn lleoedd gweithdy'r Ganolfan Addysg.

Salwch ac Argyfwng

Mae gan y Senedd staff sydd wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf ledled y safle a all ddarparu cymorth yn ystod teithiau a gweithdai. Gwneir cofnod o bob digwyddiad a damwain. Gadewch i ni wybod os oes angen i chi gario neu roi cyflenwadau meddyginiaethol mewn oergell yn ystod eich ymweliad.

Yr ysbyty agosaf yw Ysbyty St. Thomas, tua 500m o'r Senedd.

Ddiwrnod eich ymweliad, efallai y byddwch ar eich traed am hyd at awr a hanner. I'ch diogelu, gwnewch yn siŵr eich bod chi a'ch grŵp i gyd yn gwisgo esgidiau sy'n briodol ar gyfer cerdded ar arwynebau caled am gyfnodau hir, osgoi gwisgo dillad sy'n llac iawn gydag elfennau sy'n llusgo, ac osgoi dod ag eitemau nad ydynt yn hanfodol i'w cario.

Mewn argyfwng, byddai'r Heddlu Metropolitan yn cymryd rheolaeth, a gofynnir i'r holl Aelodau a staff gydymffurfio â'u cyfarwyddiadau.

Byddai gwybodaeth am unrhyw ddigwyddiad a ddigwyddodd wedi'i chyfleu i'r holl Aelodau a staff yn y modd cyflymaf posibl, gan gynnwys, lle bo hynny'n ymarferol, y cyhoeddwyr a'r system larwm llais.

Gwnewch yn siŵr eich bod chi a'ch disgyblion yn bwyta/yfed rhywbeth cyn eich ymweliad. Os byddwch wedi archebu lle ar daith a gweithdy, gallwn ddarparu lle i chi fwyta eich pecyn cinio am hanner awr ar ddiwedd yr amser a drefnwyd ar gyfer eich ymweld. Os byddwch wedi archebu lle ar daith fyrrach 90 munud, ni allwn ddarparu cyfleusterau cinio, felly efallai y byddwch hefyd yn dymuno cynllunio lle a phryd y byddwch yn bwyta.

Mesurau diogelwch ar y safle wrth gyrraedd y safle

Gallai eich grŵp gael archwiliad diogelwch tebyg i faes awyr wrth i chi ddod i mewn i'r adeilad; byddwch yn ymwybodol na chaniateir cyllyll, eitemau miniog (heblaw at ddibenion meddygol), chwistrellau paent, ac eitemau sy'n gwneud sŵn, megis chwibanau, ar yr Ystad Seneddol.

Byddwch yn derbyn arweiniad byr ar ddechrau eich ymweliad ynghylch sut y bydd eich ymweliad yn mynd yn ei flaen, yr ymddygiad a ddisgwylir a'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch.

Heblaw am Neuadd San Steffan, ni chaniateir ffotograffiaeth ar yr Ystad Seneddol.

Mynediad a Ffordd Allan/Osgoi Damweiniau

Fel amgylchedd gwaith yn ogystal ag adeilad hanesyddol, mae gan Balas San Steffan wahanol fathau o arwyneb llawr, drysau trwm/a neu sy'n troi, drysau dwbl, drysau awtomatig, ac ardaloedd cyhoeddus prysur sy'n llawn staff ac ymwelwyr. Mae rhaglen barhaus o waith cynnal a chadw, adfer ac adnewyddu hanfodol ar waith. Goruchwylir pob taith a gweithdy'n agos gan staff Gwasanaeth Addysg y Senedd - sy'n gymwys i reoli grwpiau ymwelwyr.

Gwneir gwiriadau glanhau bob bore gan dîm Gwasanaeth Addysg y Senedd yn ogystal â'r tîm Cyfleusterau Ystadau, i sicrhau nad oes unrhyw beryglon posibl. Ymdrinnir â phob mater ar frys.